# Canllawiau ar roi sgwrs gyrfa ar therapi galwedigaethol

Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol

#ChooseOT


Mae'r canllawiau hyn i'ch helpu i roi sgwrs i fyfyrwyr ysgol neu goleg am ddewis therapi galwedigaethol fel gyrfa. Mae'n gweithio wrth ochr y cyflwyniad ysgol a roddir fel ffeil PowerPoint.

Bydd y sgwrs yn cymryd tua 20 i 30 munud. Gallai fod ychydig yn hirach neu'n fyrrach yn dibynnu ar faint ydych yn ei haddasu i chi'ch hunan a faint o ryngweithio sydd gyda'r myfyrwyr.

Yn ogystal â rhoi golwg gyffredinol ar therapi galwedigaethol, bydd gan fyfyrwyr ddiddordeb mewn clywed eich stori. Mae nifer o gyfleoedd lle gallwch addasu'r sgwrs i weddu i chi.

Mae'r nodiadau siaradwyr hyn yn rhoi canllaw ar beth i'w ddweud ar bob sleid yn ogystal ag awgrymiadau ar sut y gallwch ryngweithio gyda'r myfyrwyr. Mae'r myfyrwyr yn fwy tebygol o fod â diddordeb yn eich sgwrs os ydych yn eu cynnwys nhw ynddi.

## Sleid 1




**Dyma'ch sleid agoriadol.**
**Mae'r geiriad islaw'n rhoi awgrymiadau am yr hyn y gallwch ei ddweud. Mae unrhyw eiriad mewn llythrennau italig yn gyfle i ofyn cwestiynau/rhyngweithio**

- Helo [enw] ydw i a rydw i yma i siarad gyda chi am therapi galwedigaethol a pham ei bod yn yrfa wych.
- *A oes unrhyw un wedi clywed am neu gwrdd â therapydd galwedigaethol?*
- Rydyn ni'n weithwyr proffesiynol iechyd a dros y [20 / 30 munud] nesaf byddaf yn dweud ychydig wrthych am yr hyn rydyn ni'n ei wneud, gyda phwy rydyn ni'n gweithio a'r mathau o leoedd rydyn ni'n gweithio ynddyn nhw, yn ogystal â pham rwy'n credu ei bod yn yrfa wych.


## Sleid 2




**Mae tri rhan i'r sleid yma felly i ddechrau dim ond 'beth yw ystyr galwedigaeth' y byddwch yn ei weld. Mae hyn er mwyn i chi fedru gofyn i'r myfyrwyr am eu sylwadau cyn rhoi'r ateb iddynt.**

- *Beth ydych chi'n feddwl yw ystyr galwedigaeth?*

## Sleid 3




**Rydych wedyn yn datgelu'r ateb ac yn trafod beth mae'n ei olygu.**

- Nid dim ond cyfeirio at y swyddi mae pobl yn ei wneud mae galwedigaeth. Mae hefyd yn cyfeirio at y gweithgareddau bob dydd a wnawn i ofalu amdanom ein hunain ac sy'n rhoi ymdeimlad o ddiben i'n bywydau.
- Gallai gyfeirio at unrhyw beth o godi o'r gwely yn y bore hyd at gwrdd â ffrindiau.
- Fel therapydd galwedigaethol, rydych chi'n cefnogi pobl sy'n canfod rhai meysydd o fywyd yn anodd.
- Mae hynny'n golygu siarad gyda nhw i ddeall eu hanghenion, gweld eu heriau drwy eu llygaid nhw, a'u helpu i ganfod ffyrdd i oresgyn yr heriau hynny.
- Mae hyn yn ei wneud yn broffesiwn gwerth chweil iawn. Does dim gwell teimlad na gwybod eich bod wedi rhywun i fyw eu bywyd i'w lawnaf.


## Sleid 4




**Yn nesaf rydyn ni'n dangos rhai enghreifftiau o alwedigaethau ac yn gofyn iddynt roi rhai eraill.**

- Gallai galwedigaeth olygu dod at eich gilydd gyda'ch teulu am bryd o fwyd, chwarae gemau gyda chyfaill, gweithio neu ofalu am rywun neu ddim ond gwisgo amdanoch eich hun yn y bore.
- *Pa weithgareddau eraill y gallai ei gynnwys? Pa rai sy'n bwysig i chi?*

## Sleid 5




**Dyma'ch cyfle i siarad am beth a wnewch yn eich swydd**

- Mae therapi galwedigaethol yn yrfa sy'n canolbwyntio ar bobl.
- Rydyn ni'n ceisio gweld y byd drwy lygaid pobl eraill, canolbwyntio ar y meysydd bywyd sy'n anodd neu'n her iddynt, yna eu helpu i ganfod ffordd i oresgyn y rhwystrau hynny.
- Rydyn ni'n helpu pobl sy'n gwella ar ôl salwch neu ddamwain, rydyn ni'n helpu plant i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder maent ei angen i fynd ymlaen mewn bywyd a grymuso pobl hŷn i fod yn fwy annibynnol.
- Mae ein gwaith yn cynnwys meysydd fel anatomeg a ffisioleg, seicoleg, cymdeithaseg, meddygaeth, anableddau dysgu a iechyd meddwl.
- Rydyn ni'n edrych sut y gall gwahanol gyflyrau iechyd, ffactorau amgylcheddol, gweithgareddau a digwyddiadau bywyd effeithio ar ymdeimlad pobl o'u hunain, eu perthynas gyda phobl eraill a'u gyrfaoedd.
- Yna rydyn ni'n gweithio gyda phob unigolyn i ganfod y ffordd orau ymlaen.

## Sleid 6




**Yma gallwch siarad am amrywiaeth y swydd, yn benodol y math o bobl y gall therapydd galwedigaethol weithio gyda nhw.**

- Fel therapydd galwedigaethol, gallwch gael effaith enfawr a chadarnhaol ar fywydau pobl o bob cefndir ac o bob oed.
- Gallech fod yn cefnogi unrhyw un o fabanod (hyd yn oed cyn iddynt gael eu geni) hyd at oedolion o oedran gwaith ac aelodau hŷn o'r gymuned.
- Os oes unrhyw un yn cael anawsterau'n gwneud y gweithgareddau mae angen iddynt eu gwneud neu maent eisiau eu gwneud, mae therapyddion galwedigaethol yn canfod y ffyrdd gorau ymlaen.
  - Llun 1 – Plant a phobl ifanc: Mae therapyddion galwedigaethol yn helpu babanod, plant bach, plant a phobl ifanc i dyfu, dysgu, cael hwyl, cymdeithasu a chwarae fel y gallant ddatblygu, ffynnu a chyrraedd eu potensial llawn. Gallai hyn eu cefnogi i ddod yn fwy hunanddigonol pan ddaw i bethau fel bwyta.

  - Llun 2 – Pobl gydag anabledd corfforol. Mae therapyddion galwedigaethol yn helpu pobl gydag anableddau corfforol i wneud eu gweithgareddau bob dydd a dilyn eu diddordebau. Gallai hyn fod yn gwneud newidiadau i'w cartrefi neu greu prosthetigau.
  - Llun 3 – Pobl hŷn: Mae gan therapyddion galwedigaethol rôl hanfodol i'w chwarae wrth alluogi pobl hŷn i barhau i gwneud y gweithgareddau bob dydd sy'n cynnal eu hiechyd a'u llesiant.
- *Pwy arall fedren ni weithio gyda nhw?*
- Pobl gydag anableddau dysgu. Rydyn ni'n cefnogi pobl gyda pob math o anabledd dysgu i'w helpu i fyw mor annibynnol ag sydd modd. Gallai hyn fod yn edrych ar weithgareddau bob dydd fel coginio hyd at sgiliau rhiant.
- Pobl gyda phroblemau iechyd meddwl. Rydyn ni'n galluogi pobl i ddatblygu trefn o weithgareddau bob dydd sy'n rhoi boddhad i'r person ac yn creu ymdeimlad o ddiben ac yn hybu taith adferiad y person.


## Sleid 7




**Ychydig mwy am yr amrywiaeth, ond y tro hwn y gwahanol fathau o amgylchedd y gallwch weithio ynddynt.**

- Mae hon yn yrfa lle gallech weithio mewn amrywiaeth o amgylcheddau diddorol a gwerth chweil, yn cynnwys ysbytai, allan yn y gymuned ac yng ngweithleoedd pobl.
- *Ble arall ydych chi'n credu y gallai therapyddion galwedigaethol weithio?*
  - Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys – meddygfeydd teulu, cartrefi gofal, carchardai, ysgolion, prifysgolion, cyflogaeth, awdurdodau lleol ac elusennau.

## Sleid 8




**Dyma'ch cyfle i rannu eich profiad o fod yn therapydd galwedigaethol. Efallai y byddech yn hoffi defnyddio propiau i'ch helpu i ddangos yr hyn rydych yn ei wneud.**
**Cyn y sgwrs, gallwch wneud nodiadau yma am yr hyn yr hoffech ei drafod.**

## Sleid 9 a 10







**Mae hwn yn bos hwyl i weld os yw pobl yn gallu datrys problemau.**

**Yr ateb yw car 3. Dyma'r unig ar y gallwch symud a bydd yr holl geir yn symud yn eu blaenau mewn trefn.**

- *Pa gar fyddech chi'n ei dynnu o'r dagfa draffig i gael yr holl gerbydau i symud yn eu blaenau unwaith eto?*

## Sleid 11




**Mwy o ryngweithio yma – yn dibynnu ar sut ydych yn rhoi eich sgwrs, gallech ofyn i'r myfyrwyr godi eu dwylo i ateb pob cwestiwn.**

- Ydych chi'n dda am ddatrys problemau, yn berson pobl neu'n dda am bwyso a mesur sefyllfaoedd? Ydych chi'n cael mwynhau helpu pobl?
- Os gwnaethoch ateb car tri i'r sleid flaenorol, yna mae'n debyg eich bod yn dda am ddatrys problemau.
- *A yw eich ateb yn 'ydw' i unrhyw un o'r rhain?*
- Yna gallai therapi galwedigaethol fod yr yrfa berffaith i chi.


## Sleid 12




**Mae'n awr yn amser i siarad am sut y gallwch ddod yn therapydd galwedigaethol. Gallwch rannu eich stori os na wnaethoch hynny'n barod.**

- Mae dwy ffordd y gallwch astudio i ddod yn therapydd galwedigaethol..
- Gallwch naill ai fynd i brifysgol a chael gradd neu wneud prentisiaeth lefel gradd.
- Mae dros 35 prifysgol ym mhob rhan o'r wlad lle gallech astudio.
- Mae cwrs gradd llawn-amser yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cymryd tair blynedd a phedair blynedd yn yr Alban. Mae hefyd gyrsiau rhan-amser ar gael.
- Neu efallai y byddai'n well gennych weithio tra'ch bod yn astudio, ac os felly gallai prentisiaeth lefel gradd fod yn addas i chi.


## Sleid 13




**Gallwch roi ychydig o wybodaeth yma, ond mae meini prawf mynediad ar gyfer pob cwrs yn amrywio, felly ni fedrwn fod yn benodol ar raddau.**

- Mae'r graddau a'r cymwysterau rydych eu hangen i gael lle ar gwrs yn amrywio, felly byddwn yn argymell ymweld â gwefannau y prifysgolion mae gennych ddiddordeb ynddynt.
- I ddechrau byddwch angen TGAU Iaith Saesneg neu Fathemateg (neu gyfwerth), mae pwnc gwyddonol hefyd yn syniad da.
- Yna pan ydych yn edrych naill ai ar [Lefel A, Bagloriaeth Cymru, Lefel Uwch yr Alban neu Dystysgrif Gadael Iwerddon] byddai bioleg ddynol, iechyd a gofal cymdeithasol, seicoleg neu wyddorau cymdeithasol yn bynciau da.
- Nid yw pob prifysgol yn manylu pynciau a bydd y graddau rydych eu hangen yn amrywio yn dibynnu lle'r ydych eisiau astudio.
- Mae opsiynau eraill yn cynnwys Diploma BTEC mewn pwnc cysylltiedig ag iechyd a gofal cymdeithasol neu gwrs mynediad.
- Ac os ydych dewis prentisiaeth, mae mwy o hyblygrwydd ar y cymwysterau rydych eu hangen.

## Sleid 14




**A dyma'r sleid olaf.**

**Cyn i chi ddod i ben, gofynnwch iddynt os oes ganddynt unrhyw gwestiynau ac awgrymu eu bod yn ymweld â'n gwerfan**

- Os hoffech ganfod mwy gallwch fynd i'n gwefan gyrfaoedd lle mae mwy o wybodaeth.
- *Ond yn gyntaf gallaf ateb eich cwestiynau. A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei wybod am fod yn Therapydd Galwedigaethol?*
- Diolch i chi am eich amser heddiw. Gobeithiaf fy mod wedi medru rhoi ychydig o wybodaeth i chi ar pam fy mod yn meddwl fod bod yn therapydd galwedigaethol yn yrfa wych.